# Cynnal arwynebeddau glaswellt

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd yn cynnal arwynebeddau glaswellt.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac yn gwella ei werth o ran natur, cadwraeth a hamdden.

Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. bod yn ymwybodol o'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd i'w gyflawni
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. archwilio'r arwynebeddau glaswellt i nodi ac asesu'r angen i adnewyddu ac atgyweirio
4. paratoi a defnyddio'r offer a'r cyfarpar gofynnol ar gyfer cynnal arwynebeddau glaswellt yn ddiogel ac yn gywir
5. clirio unrhyw falurion cyn dechrau'r gweithrediadau
6. sicrhau bod arwyneb y glaswellt mewn cyflwr priodol ar gyfer ei gynnal
7. defnyddio dulliau o ymdrin â bygythiadau i iechyd sy'n briodol i'r glaswellt a'i gyflwr
8. cynnal golwg yr arwynebedd glaswellt yn unol â'r manylebau
9. atal niwed i'r ardal gyfagos, a chadw llygredd amgylcheddol mor isel â phosibl
10. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
11. gwaredu toriadau glaswellt a gwastraff arall yn ddiogel ac yn gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
12. glanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar er mwyn cynnal arwynebeddau glaswellt yn ddiogel ac yn gywir
13. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y peryglon sydd yn gysylltiedig â chynnal arwynebeddau glaswellt
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. pwysigrwydd gwirio arwynebeddau glaswellt yn rheolaidd a'r ffordd y mae hyn yn amrywio yn ôl y math o laswellt a'r diben a fwriadwyd
4. sut i baratoi, defnyddio, cynnal a chadw, glanhau a storio offer, cyfarpar a pheiriannau sy'n ofynnol ar gyfer cynnal arwynebeddau glaswellt yn ddiogel ac yn gywir
5. yr amodau sy'n briodol ar gyfer torri glaswellt
6. cyfnodau datblygiad glaswellt
7. yr effaith y mae'r tymhorau a chyflwr y pridd yn ei gael ar dwf a chynnal arwynebeddau glaswellt
8. dulliau o gynnal iechyd y planhigyn glaswellt
9. sut i adnabod plâu, clefydau a niwed i arwynebeddau glaswellt a chymryd camau priodol
10. effeithiau rhannu a gadael toriadau glaswellt yn y fan a'r lle
11. pwysigrwydd atal niwed i'r ardal gyfagos
12. peryglon gwneud gwaith ar hyd y briffordd gyhoeddus ac arwynebeddau sydd ar ogwydd
13. goblygiadau defnyddio offer a pheiriannau dros gyfnod estynedig
14. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
15. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol i helpu i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
16. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol
17. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Cwmpas/Ystod

A. adnabod ac ymdrin â'r bygythiadau canlynol i iechyd cae wrth gynnal arwynebeddau glaswellt:

- plâu
- clefydau
- diffygion
- amodau anffafriol
- twf cystadleuol

B. defnyddio'r dulliau canlynol i ymdrin â bygythiadau i iechyd wrth gynnal arwynebeddau glaswellt:

- ffisegol
- cemegol
- tyfiannol
- dyfrhau

C. paratoi, defnyddio, glanhau, cynnal a chadw a storio'r mathau canlynol o offer a chyfarpar wrth gynnal arwynebeddau glaswellt:

- offer llaw
- strimwyr
- peiriannau torri glaswellt wedi eu rheoli gan gerddwyr
- peiriannau torri glaswellt sy'n cael eu gyrru

D. defnyddio'r dulliau canlynol i gynnal y cae:

- torri'r glaswellt
- torri'r ymylon
- bwydo
- dyfrhau
- gwrteithio o'r brig
- atgyweirio

## Geirfa

Cyfarwyddiadau: llafar neu ysgrifenedig.

Cynnal iechyd: plâu, clefydau, diffygion, amodau anffafriol, twf cystadleuol.

Dulliau o ymdrin â'r bygythiadau i iechyd: ffisegol, cemegol, tyfiannol, dyfrhau.

Cynnal y glaswellt: torri'r glaswellt, strimio, torri'r ymylon, bwydo, dyfrhau, gwrteithio o'r brig, atgyweirio.

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS), canllawiau cynhyrchwyr, polisïau sefydliadol.

Offer a chyfarpar: offer llaw, strimwyr, peiriannau torri glaswellt wedi eu rheoli gan gerddwyr, peiriannau torri glaswellt sy'n cael eu gyrru.

Cynnal arwynebeddau glaswellt

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANL3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofalwr Tir, Gofalwr y Grîn, Garddwyr, Tirlunwyr |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | cae; arwynebedd; strimiwr; torri glaswellt; bwydo; glaswellt; llethrau |